# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes MBE, Kenneth Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, Dafydd Roberts, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Rheoli Datblygu (NJ)<br>Swyddog Cynllunio (GJ)<br>Swyddog Cynllunio (HR)<br>Swyddog Cynllunio (AR)<br>Peiriannydd Rheoli Datblygu (JAPR)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr R.G.Parry, OBE, FRAgS (ar gyfer cais 7.1), Richard Dew (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio) |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaethpwyd datganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn -

Datganodd y Cynghorydd Nicola Roberts ddiddordeb personol a diddordeb sy’n rhagfarnu mewn perthynas â chais 7.1 ar y rhaglen.
Datganodd y Cynghorydd Bryan Owen ddiddordeb personol mewn perthynas â chais 7.2 ar y rhaglen; arhosodd yn y cyfarfod i siarad fel Aelod Lleol ond ni phleidleisiodd ar y cais.

**3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2019 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**4 YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau â safleoedd cynllunio a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2019 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**5 SIARAD CYHOEDDUS**

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod Siaradwyr Cyhoeddus wedi cael eu cofrestru i siarad mewn perthynas â chais 7.1

## 6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO

Nid ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 7 CEISIADAU'N CODI

**7.1 OP/2019/5 - Cais cynllunio amlinellol ar gyfer dymchwel yr adeiladau presennol ynghyd â chodi 52 o anheddau fforddiadwy gyda datblygiadau cysylltiedig ynghyd â manylion llawn y fynedfa i gerbydau ar dir ger Huws Gray, Stryd y Bont, Llangefni**

Adroddwyd ar y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod safle'r cais ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Yn y cyfarfod o’r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2019, penderfynwyd bod angen ymweld â’r safle a gwnaed hynny wedyn ar 16 Hydref 2019.

*Gan ei bod wedi datgan diddordeb personol a diddordeb sy’n rhagfarnu mewn perthynas â’r cais, gadawodd y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd) y cyfarfod pan gafodd y mater ei gyflwyno. Cadeiriodd y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd) y cyfarfod ar gyfer yr eitem.*

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu mai gohirio ystyried y cais oedd argymhelliad y Swyddog bellach, a hynny oherwydd bod materion technegol wedi codi.

Cynigiodd y Cynghorydd Kenneth Hughes, ac eiliodd y Cynghorydd Bryan Owen, y dylid gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.

**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd.**

**7.2 FPL/2019/226 - Cais llawn ar gyfer lleoli tri siale gwyliau, ffurfio trac mynediad newydd, newidiadau i fynediad cyfredol ynghyd â gosod gwaith trin newydd ar dir yn Fronwen, Niwbwrch.**

Adroddwyd ar y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan ei fod wedi ei alw i mewn i'r pwyllgor gan Aelod Lleol. Yn ei gyfarfod ar 2 Hydref, 2019 penderfynodd y Pwyllgor ymweld â'r safle a gwnaed hynny wedyn ar 16 Hydref, 2019.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod cais blaenorol i leoli tri siale gwyliau ac i greu trac mynediad newydd yn y lleoliad wedi ei wrthod ym mis Mehefin, 2019 ar y sail nad oedd y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi TWR3 (Safleoedd Carafanau Sefydlog a Siales a Gwersylla Amgen Parhaol) a Pholisi PS4 (Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd) oherwydd ystyrir ei fod mewn lleoliad ynysig anghynaliadwy yn y cefn gwlad agored a hefyd oherwydd na chredir ei fod wedi ei leoli'n dda nac o ansawdd uchel. Ystyriwyd ymhellach nad oedd gan y cynnig gwreiddiol lain weledd ddigonol ar gyfer y fynedfa arfaethedig, a hynny’n groes i ofynion polisi. Mae'r cais hwn yn cynnwys cynllun i wella’r llain welededd ac mae'r Adain Briffyrdd wedi cadarnhau bod y cynllun hwnnw’n dderbyniol. Y materion cynllunio allweddol wrth ystyried y cais felly, fel o’r blaen, yw cynaliadwyedd y datblygiad dan ddarpariaethau Polisi PS4 ac a ellir ystyried ei fod yn ddatblygiad o safon uchel o dan ddarpariaethau Polisi TWR3.

Dywedodd y Swyddog fod Polisi PS4 yn nodi y bydd datblygiadau'n cael eu lleoli er mwyn lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau modur. Mae Polisi TWR 3 yn cefnogi datblygiadau twristiaeth ar yr amod eu bod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad. Nid yw'r cynnig fel y cyflwynwyd ef yn cynnwys unrhyw gyfleusterau cysylltiedig ac eithrio'r siales eu hunain. Mae'r CCA drafft ar Gyfleusterau a Llety Twristiaeth yn nodi'n eglur nad ystyrir bod cynigion am garafanau neu siales annibynnol sengl mewn cae amaethyddol neu o fewn cwrtil annedd breifat heb unrhyw gyfleusterau cysylltiedig yn ddatblygiadau o ansawdd uchel ac nid ydynt felly'n gyson â Pholisi TWR 3. Nid yw datblygiadau o'r fath yn cyfoethogi ansawdd yr arlwy ar gyfer twristiaid yn ardal y cynllun a gallai effeithiau cronnus datblygiadau o'r fath effeithio'n negyddol ar y dirwedd. Amlygodd y Swyddog, er bod y siales yn llai o faint bellach, mae'r gosodiad a'r lleoliad yn aros yr un fath i bob pwrpas ag o dan y cais blaenorol, sef ffurf linellol mewn man ynysig yn y cefn gwlad heb unrhyw gyfleusterau cysylltiedig. O'r herwydd, nid ystyrir ei fod yn ddatblygiad o ansawdd uchel yn unol â'r polisi a'r canllawiau atodol. Er gwaethaf bod y datblygiad arfaethedig yn agos at y prif rwydwaith priffyrdd sef y B4421, mae'r anheddiad agosaf oddeutu 1km i'r de-orllewin yn Niwbwrch a cheir yno trwy'r B4421 sy'n ffordd 60mya heb balmentydd na goleuadau sy'n golygu bod hwn yn lleoliad anghynaliadwy o dan ddarpariaethau'r polisïau lleol a chenedlaethol. Argymhelliad y Swyddog felly yw gwrthod y cais.

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen, yn siarad fel Aelod Lleol, fod derbynioldeb y datblygiad o dan ddarpariaethau polisi yn dibynnu ar sut mae'r polisïau hynny'n cael eu darllen a'u dehongli. 'Roedd yr ymweliad â'r safle wedi dangos nad yw safle'r cais yn bell o glwstwr o dai, a bod yna nifer o fusnesau a mwynderau sy'n dibynnu ar dwristiaeth tua 1.5 milltir i ffwrdd yn Niwbwrch. Amlygodd y Cynghorydd Owen nad yw Polisi TWR 3 yn cau allan y math hwn o ddatblygiad, ac y gellid, yn ei farn ef, ystyried bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel yn unol â gofynion y CCA . Yn ogystal, pethau eraill sydd o blaid y datblygiad yw ei leoliad ar y prif lwybr bws a'i fod y tu allan i unrhyw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac nad yw'n effeithio'n andwyol ar y dirwedd o'i amgylch yn yr un modd â'r mast ffôn ymwthiol sydd y tu ôl i'r safle datblygu arfaethedig. Yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, ni allai weld sut y gellid gwrthod y cynnig a gofynnodd i'r Pwyllgor gefnogi'r cais.

Mynegodd y Cynghorwyr Eric Jones a Kenneth Hughes eu cefnogaeth i'r cais gan nodi pwysigrwydd twristiaeth i economi a ffyniant Ynys Môn a chan gyfeirio hefyd at botensial y cynnig i gyfrannu at y farchnad swyddi leol. Amlygodd y Cynghorydd Hughes fod Polisi TWR 3 yn caniatáu siales gwyliau yn y math hwn o leoliad ac mai mater o farn yw'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y cynnig; gan hynny 'roedd o'r farn bod yr achos o blaid y cynnig yn drech na'r achos yn ei erbyn. Lleoliad y cynnig yn y cefn gwlad yw'r hyn sy'n gwneud datblygiadau o'r fath yn ddeniadol i dwristiaid sy'n dymuno dianc rhag sŵn trefi a dinasoedd. O ystyried pa mor bwysig oedd twristiaeth i'r Ynys roedd yn teimlo y dylai'r Pwyllgor fanteisio ar bob cyfle o fewn y polisi, megis y datblygiad arfaethedig hwn, a hynny er mwyn cefnogi pobl Ynys Môn ac fel na thanseilir eu hymrwymiad i gyfrannu at ynys lewyrchus. Teimlai y byddai caniatáu'r cais yn rhesymol o dan ddarpariaethau Polisi TWR 3 ac ar y sail honno cynigiodd bod y cais yn cael ei gymeradwyo yn groes i argymhelliad y swyddog. Eiliodd y Cynghorydd Eric Jones y cynnig.

Mynegodd y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, wrth nodi ei gefnogaeth i'r cais, rai amheuon ynghylch y potensial i ddatblygu ymhellach yn y cae o flaen safle'r cais. Gofynnodd am eglurhad ynghylch a fyddai modd gosod amod yn gwahardd datblygiad pellach.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu nad oedd modd gosod cyfyngiad o'r fath ar y tir dan sylw; pe bai'r Pwyllgor yn derbyn bod egwyddor safle'r cais yn addas ar gyfer y math hwn o ddatblygiad o dan Bolisi TWR3, yna ni allai roi unrhyw sicrwydd na fyddai unrhyw fwriad i

ymestyn yn y dyfodol. Eglurodd y Swyddog hefyd fod y cyfeiriad yn yr adroddiad at gynaliadwyedd lleoliad y cynnig yn cael ei wneud mewn perthynas â thrafnidiaeth a'r angen i leihau teithio. Cadarnhaodd ymhellach na fu unrhyw wrthwynebiadau i'r cais yn lleol.

Cytunodd y Cynghorydd John Griffith â safbwynt y Swyddog gan ddweud bod yr ymweliad â'r safle wedi dangos y byddai'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli'n ddwfn yn y cefn gwlad agored ac ar wahân i unrhyw gyfleusterau neu anheddau. Cyfeiriodd at adroddiad y Swyddog ac at y rhesymau a roddwyd dros wrthod y cais blaenorol a oedd yn ymwneud â lleoliad ynysig y cynnig, y ffaith nad ystyrir ei fod o ansawdd uchel ac y credir ei fod, oherwydd ei leoliad, yn tanseilio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynaliadwyedd. 'Roedd y Cynghorydd John Griffith yn pryderu y gallai cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog osod cynsail a thrwy hynny agor y drws i geisiadau tebyg eraill ar yr Ynys. Felly cynigiodd, ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Richard Owain Jones, y dylid gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.

Yn y bleidlais ddilynol ar y mater, cariwyd y cynnig i gymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog ar y sail yr ystyriwyd ei fod yn dderbyniol o dan Bolisi TWR 3.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn groes i'r argymhelliad y Swyddog oherwydd ystyrir ei fod yn dderbyniol dan ddarpariaethau Polisi TWR3.** *(Ni phleidleisiodd y Cynghorydd Bryan Owen ar y mater)*

***Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig i'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad ar y rheswm a roddwyd dros gymeradwyo'r cais.***

## 8 CEISIADAU ECONOMAIDD

Nid oedd dim ceisiadau o'r fath i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY

Nid oedd dim ceisiadau o'r fath i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 10 CEISIADAU'N GWYRO

Nid oedd dim ceisiadau o'r fath i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

Nid oedd dim ceisiadau o'r fath i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## 12 GWEDDILL Y CEISIADAU

### 12.1 OP / 2019/14 – Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ar dir ger Gelli Aur, Brynsiencyn

Adroddwyd ar y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod y tir yn eiddo i'r Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod safle'r cais yn ddarn o dir gwag rhwng 2 annedd ar stad Trefenai, Brynsiencyn. Mae amlinelliad o faint yr annedd o ran terfynau uchaf ac isaf wedi'i ddarparu fel rhan o'r cais ac os caiff y cais ei gymeradwyo, rhoddir amod ar y caniatâd (amod 08) i gyfyngu ar hyd a lled yr eiddo i'r meintiau a ddangosir ar y cynllun safle er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol ynghylch pellter o eiddo cyfagos. Dywedodd y Swyddog fod ymgyngoreion yn fodlon â'r cynnig ac wedi rhoi cymeradwyaeth amodol a chadarnhaodd hefyd fod yr Adain Ddraenio wedi cyflwyno sylwadau safonol ers hynny ynghylch y system ddraenio ar y safle. Er na dderbyniwyd unrhyw sylwadau hyd yma, nid yw'r cyfnod ar gyfer derbyn sylwadau yn dod i ben tan 6 Tachwedd; felly ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau sy'n codi materion newydd cyn i'r cyfnod cyhoeddusrwydd ddod i ben, yr argymhelliad yw cymeradwyo'r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Robin Williams, ac eiliodd y Cynghorydd Eric Jones, y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog a chyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad a chyhyd na dderbynnir sylwadau sy'n codi materion newydd cyn i'r cyfnod cyhoeddusrwydd ddod i ben.**

**12.2 DEM / 2019/14 - Cais i benderfynu a oes angen caniatâd ymlaen llaw i ddymchwel yr ysgol bresennol yn Ysgol Gynradd Llaingoch, Ffordd Ynys Lawd, Caergybi.**

Adroddwyd ar y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan ei fod yn ymwneud â thir sy'n eiddo i'r Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu, o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu a Ganiateir yn Gyffredinol) 1995, nad oes angen caniatâd cynllunio i ddymchwel adeiladau ar yr amod bod y datblygwr yn gwneud cais yn gyntaf i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gadarnhau a oes angen ei gymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y dull dymchwel ac unrhyw waith adfer ar y safle. Yn unol â'r broses hon, rhoddwyd cyfnod o 28 diwrnod i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried y gwaith dymchwel arfaethedig a chadarnhaodd yn ystod y cyfnod hwnnw y byddai angen caniatâd ymlaen llaw er mwyn cael Cynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer y Gwaith Dymchwel (CRhAGD) sy'n manylu ar fesurau rheoli i leihau effeithiau'r gwaith dymchwel gan gynnwys ar fwynderau preswyl, a Chynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer Trafnidiaeth Gwaith Dymchwel (CRhATGD) sy'n rhoi manylion am y mesurau rheoli i leihau effeithiau trafnidiaeth wrth ddymchwel yr adeilad. Mae'r cynlluniau hyn bellach wedi dod i law ac yn cael sylw. Darparwyd asesiad ecolegol fel rhan o'r cais sy'n cynnwys datganiad dull a chamau lliniaru ar gyfer dymchwel yr adeilad ar sail ragofalus rhag ofn bod ystlumod ar y safle. Mae'r manylion a gyflwynwyd yn yr asesiad yn dderbyniol gan yr Awdurdod Cynllunio. Felly argymhelliad y Swyddog yw cymeradwyo ar yr amod bod y cynlluniau uchod yn foddhaol.

Cynigiodd y Cynghorydd Vaughan Hughes, ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Robin Williams, y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.

**Penderfynwyd bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi caniatâd ymlaen llaw yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog a'r amodau ynddo ac ar yr amod bod y manylion yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer y Gwaith Dymchwel a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer Trafnidiaeth Gwaith Dymchwel yn dderbyniol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**

**12.3 FPL/2019/207 - Cais llawn i godi 15 annedd gan gynnwys 8 annedd fforddiadwy ynghyd â chreu mynediad newydd a datblygiadau cysylltiedig ar hen safle Tafarn y Marquis, Rhosybol.**

Adroddwyd ar y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd iddo gael ei gyflwyno ar ran yr Awdurdod Lleol.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y byddai 8 uned (1 fforddiadwy) ar y rhan o'r safle sydd o fewn ffin ddatblygu Rhosybol ac y byddai 7 uned (pob un yn fforddiadwy) ar y rhan o'r safle sydd y tu allan i'r ffin fel safle eithrio o dan Bolisi TAI 16. Mae'r Gwasanaeth Tai wedi cadarnhau bod angen tai o'r fath yn lleol ac fel sy'n ofynnol gan Bolisi TAI 16, mae'r ymgeisydd (yn ogystal â'r adran bolisi) wedi darparu manylion i ddangos nad oes modd darparu tai fforddiadwy o fewn amserlen resymol ar safle marchnad y tu mewn i'r ffin ddatblygu. Ni ddarparwyd unrhyw unedau tai fforddiadwy yn yr anheddiad ers 2011 ac nid oedd yr un yn y banc tir tai ym mis Ebrill, 2018. Ni neilltuwyd unrhyw safle ar gyfer tai yn Rhosybol a dim ond un eiddo yn yr ardal a oedd ar werth am bris y gellid ei ystyried yn fforddiadwy ar adeg yr arolwg felly mae'r egwyddor wedi ei sefydlu o ddatblygu'r safle eithrio i gwrdd â'r angen a nodwyd yn anheddiad Rhosybol. O ran cymeriad yr ardal, mae'r Swyddog o'r farn bod yr anheddau arfaethedig yn dderbyniol o ran eu heffaith ar y drefwedd a'u bod yn integreiddio'n briodol i'r ardal gyfagos. Ni chredir 'chwaith y bydd y cynnig yn effeithio'n annerbyniol ar fwynderau unrhyw eiddo cyfagos, ac er budd preifatrwydd, cynigir ffens 1.8m o uchder ar hyd ffiniau gogleddol a deheuol y datblygiad. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau yn lleol i'r cynnig.

Adroddodd y Swyddog ymhellach, pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo, o dan Bolisi ISA 1 byddai Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes y Cyngor yn ceisio cyfraniad o £36,771 tuag at gyfleusterau addysgol yn Ysgol Rhosybol. Hefyd, mae Polisi ISA 5 yn ei gwneud yn ofynnol bod cynigion am dai newydd o 10 annedd neu fwy yn gwneud darpariaeth addas ar gyfer mannau agored os na all y man agored sydd yno ar hyn o bryd gwrdd ag anghenion y datblygiad tai arfaethedig. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, oherwydd bod grŵp lleol wedi llwyddo i sicrhau cyllid i ddarparu man chwarae yn y pentref oherwydd nad oedd un yno o'r blaen, gwneir cais am gyfraniad ariannol oddeutu £1,500 i gynnal a chadw'r cyfleuster yn lle darpariaeth uniongyrchol ac fe ymgorfforir hynny o fewn cytundeb cyfreithiol.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad gan y Swyddog ar newidiadau / diwygiadau i'r adroddiad fel a ganlyn -

- Mae Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu bellach wedi dod i law sy'n dderbyniol gan yr Adran Briffyrdd. Mae'r cynllun yn nodi'r oriau gweithredu sy'n golygu y gellir dileu amod (03).
- Bydd angen aileirio Amod (08) i nodi y dylid cyflawni'r cynllun yn unol â manylion y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu fel y cyflwynwyd ef.
- Mae'r cynlluniau'n dangos y bydd llwybr cyhoeddus i'r gogledd o'r safle datblygu yn cael ei wyro trwy'r safle. Bydd angen atodi nodyn gydag unrhyw ganiatâd i nodi bod gweithredu'r gwyriad yn destun proses gymeradwyo ar wahân.
- Ar y cychwyn 'roedd yr Adran Briffyrdd yn erbyn y bwriad o gynnwys mynedfeydd i gerddwyr o flaen y safle ar y sail y gallai hynny arwain at barcio ar y stryd a thrwy hynny rwystro traffig yn gyffredinol. Mae'r cynnig bellach yn cynnwys lleoedd parcio i ymwelwyr ar y safle ac mae hynny felly'n datrys y gwrthwynebiad.
- Mae angen amod ychwanegol bod raid cwblhau rhaglen o waith archeolegol cyn i unrhyw waith datblygu ddigwydd.

Cadarnhaodd y Swyddog, yn amodol ar wneud y diwygiadau uchod, mai'r argymhelliad yw cymeradwyo'r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Owain Jones, ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Bryan Owen, y dylid cymeradwyo'r cais.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog a chyda'r amodau ynddo a'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod, ac ar yr amod hefyd y bydd cytundeb Adran 106 mewn perthynas â chyfraniad i isadeiledd, tai fforddiadwy a gofynion man agored.**

## 13 MATERION ERAILL

Nid oedd dim ceisiadau o'r fath i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**Cynghorydd Nicola Roberts**
**Cadeirydd**